Fframwaith Rheoleiddio wrth gefn Cymwysterau Galwedigaethol – Amodau a Gofynion COVID-19

AWST 2021

Hanes Fersiynau

Cyhoeddwyd y ddogfen hon y tro cyntaf ar 27 Ebrill 2021.

Diwygiwyd y ddogfen hon ar 18 Mai 2021 er mwyn ychwanegu Amod VCR8 (cyfle Asesu Ychwanegol) yn dilyn ymgynghoriad.

Ailgyhoeddwyd y ddogfen hon ar 18 Awst 2021 yn dilyn ymgynghoriad er mwyn:

- gwneud mân newidiadau drafftio i Amodau VCR1.3 a VCR1.8 i ganiatáu tynnu cymwysterau Categori B yn ôl o 1 Medi 2021.

Ochr yn ochr â'r fersiwn o'r ddogfen hon a ailgyhoeddwyd ar 18 Awst 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddau rybudd:

- Mae'r rhybudd cyntaf yn tynnu dynodiad Cymwysterau Categori B yn ôl o 1 Medi 2021 yn amodol ar ddarpariaethau trosiannol ac arbedion.
- Mae'r ail rybudd yn anghymeradwyo Amod VCR7.2 mewn perthynas â phob VQ o 1 Medi 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol ac arbedion.

Cynnwys

Hanes Fersiynau **1**

Am y ddogfen hon **4**

Gofynion a nodir yn y ddogfen hon **4**

Amod VCR1: Cymhwyso, dehongli a diffiniadau **5**

Cymhwyso *5*

Dehongli a diffiniadau *5*

Amod VCR2: Adolygu ac addasu Cymwysterau Categori A **8**

Amod VCR3: Canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B **9**

Cyhoeddi canlyniadau *9*

Penderfynu ar ganlyniadau *10*

Amod VCR4: Egwyddorion i'w cymhwyso **11**

Amod VCR5: Cadw cofnod o wneud penderfyniadau **12**

Amod VCR6: Cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau **14**

Cefnogaeth i Ganolfannau *14*

Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau *14*

Amod VCR7: Apeliadau **16**

Amod VCR8: Cyfle Asesu Ychwanegol **17**

Amod VCR9: Hysbysiadau Cyngor Technegol **19**

Gofynion mewn perthynas ag Addasu Cymwysterau Galwedigaethol **20**

Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau *20*

Ystyriaethau cydraddoldeb *21*

Cymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol a thrwyddedau i ymarfer *21*

Gofynion mewn perthynas â phenderfynu canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B **23**

Ymagwedd gyffredinol at ddyfarnu *23*

Penderfynu ar y canlyniadau *23*

Dulliau cymysg a chyfochrog o ddyfarnu *29*

Dysgwyr a gymerodd neu a oedd yn disgwyl cymryd asesiad ym mis Ionawr 2021 . *29*

Egwyddorion i'w cymhwyso **30**

Yr egwyddorion mewn perthynas â Chymwysterau Categori A *30*

Yr egwyddorion mewn perthynas â Chymwysterau Categori B..... 31

Am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n nodi ein gofynion rheoliadol ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol y mae'r pandemig coronafeirws (COVID-19) yn effeithio arnynt.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Gofynion a nodir yn y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol (Amodau VCR). Daeth yr amodau hyn i rym am 13:00 ar 24 Mawrth 2021 ar gyfer yr holl gymwysterau galwedigaethol sy'n dod o fewn categorïau A a B fel y'u diffinnir yn Amod VCR1.8.

Mae hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â'r canlynol:

- addasu Cymwysterau Categori A a Chymwysterau Categori B
- penderfynu ar ganlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B
- yr egwyddorion i'w defnyddio gan gyrff dyfarnu wrth addasu Cymwysterau Categori A a Chymwysterau Categori B ac wrth bennu canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B

Nid yw'r gofynion yn y ddogfen hon yn berthnasol i Fynediad at Ddiplomâu AU a ddarperir yng Nghymru. Mae trefniadau amgen ar gyfer y cymwysterau hyn yn cael eu rheoli gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).

Mewn perthynas â'r holl gymwysterau y mae'r amodau a nodir yn y ddogfen hon yn berthnasol iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr amodau hynny, rhaid i gyrff dyfarnu hefyd gydymffurfio â'n:

- Amodau Cydnabod Safonol, sy'n berthnasol i'r holl gyrff dyfarnu a chymwysterau, a'r
- holl Ddogfennau Rheoleiddio perthnasol

Amod VCR1: Cymhwyso, dehongli a diffiniadau

Cymhwyso

VCR1.1 Mae'r Amodau VCR yn berthnasol -

(a) i bob Cymhwyster Galwedigaethol, a

(b) hyd at unrhyw ddyddiad a bennir mewn, neu y penderfynir arno o dan, unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan yr amod hwn.

VCR1.2 Gall unrhyw rybudd o'r fath a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru -

(a) gael ei gyhoeddi mewn perthynas ag un neu fwy -

(i) o Gymwysterau Galwedigaethol, neu

(ii) Amodau VCR,

(b) gael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl gan Gymwysterau Cymru ar unrhyw adeg cyn y dyddiad a bennir yn neu y penderfynir arno, a

(c) chynnwys unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn briodol.

VCR1.3 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion unrhyw ddarpariaethau trosiannol ac arbed –

a) sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiad a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan Amod VCR1.2, neu

b) a bennir gan Gymwysterau Cymru mewn perthynas â diddymu dynodiad cymhwyster fel Cymhwyster Categori B

Dehongli a diffiniadau

VCR1.4 Oni bai bod darpariaeth arall wedi'i gwneud yn Amod VCR1.8, bydd y canlynol yn berthnasol i'r Amodau VCR -

(a) y rheolau dehongli a'r diffiniadau a amlinellir yn Amod Safonol J1, a

(b) y diffiniadau a amlinellir yn yr Amodau Lefel Cymhwyster.

VCR1.5 Ac eithrio dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Amod VCR1.6, mae'r gofynion a osodir gan yr Amodau VCR yn berthnasol yn ychwanegol at

y gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw Amodau Lefel Cymhwyster perthnasol.

VCR1.6 I'r graddau y mae unrhyw anghysondeb rhwng -

(a) un o ofynion Amod VCR, ac

(b) un o ofynion Amod Cydnabod Safonol neu Amod Lefel Cymhwyster,

fel na allai corff dyfarnu gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio â gofyniad yr Amod VCR ac nid oes rheidrwydd arno i gydymffurfio â gofyniad yr Amod arall.

VCR1.7 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall, yn Amodau VCR mae cyfeiriadau at 'ganlyniad' yn golygu canlyniad i uned neu'r Cymhwyster Galwedigaethol (VQ), fel sy'n berthnasol.

VCR1.8 Yn yr Amodau hyn bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cysylltiedig yn unol â hynny) -

Addasiadau
Unrhyw newidiadau a wneir gan gorff dyfarnu i Gymhwyster Galwedigaethol y mae'n ei gynnig, gan gynnwys newidiadau i ddyluniad, gosodiad, cyflwyno neu farcio asesiad.

Cymhwyster Categori A
Cymhwyster nad yw'n un o'r canlynol –

(a) Cymhwyster dyfarniad estyniad uwch.
(b) Cymhwyster TGAU.
(c) Cymhwyster TAG.
(d) Cymhwyster prosiect (ar unrhyw lefel).
(e) Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.
(f) Dynodwyd yn Gymhwyster Categori B gan Gymwysterau Cymru.

Lle mae Cymhwyster Galwedigaethol wedi'i ddynodi yn flaenorol fel Cymhwyster Categori B a bod Cymwysterau Cymru yn tynnu'r dynodiad hwnnw yn ôl, bydd y Cymhwyster Galwedigaethol yn dod yn Gymhwyster Categori A o'r dyddiad a nodwyd gan Gymwysterau Cymru yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau arbed a throsiannol y bydd Cymwysterau Cymru yn eu nodi.

Cymhwyster Categori B
Cymhwyster a ddynodwyd yn Gymhwyster Categori B gan Cymwysterau Cymru neu Ofqual ac a nodwyd felly ar wefan Cymwysterau Cymru neu ar wefan neu gais sydd ar gael gan neu ar ran Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu

corff dyfarnu o unrhyw newidiadau i'r dynodiad hwnnw ac unrhyw ddarpariaethau arbed a throsiannol cymwys mewn perthynas â'r newid hwnnw.

Ymgeisydd Preifat
Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol iddo.

Amod Lefel Cymhwyster
Unrhyw Amod Lefel Cymhwyster sy'n berthnasol i Gymhwyster Galwedigaethol.

Canolfan Berthnasol
Mewn perthynas â Dysgwr, Canolfan –

(a) y mae'r Dysgwr wedi'i gofrestru â hi, a
(b) a gyfrannodd yn sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarparwyd gan Athrawon a gyflogwyd ganddi neu fel arall).

Hysbysiad Cyngor Technegol
Cyngor a ddarperir gan Gymwysterau Cymru i gorff dyfarnu yn ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n berthnasol i'r Amodau VCR.

Cymhwyster Galwedigaethol (VQ)
Cymhwyster sy'n unrhyw un o'r canlynol –

(a) Cymhwyster Categori A, neu
(b) Cymhwyster Categori B

ac sydd **ddim** yn Ddiploma Mynediad at AU.

Amod VCR2: Adolygu ac addasu Cymwysterau Categori A

VCR2.1 Mewn perthynas â phob Cymhwyster Categori A y mae'n sicrhau sydd ar gael, bydd corff dyfarnu –

(a) yn gorfod ystyried a yw'n briodol Addasu'r cymhwyster er mwyn lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan y pandemig coronafeirws (COVID-19) i addysgu, dysgu a darparu asesiadau mewn perthynas â'r cymhwyster i'r Dysgwyr sy'n ei gymryd, a

(b) pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny ar y sail honno, gallai'r corff dyfarnu Addasu'r cymhwyster.

VCR2.2 Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu Cymhwyster Galwedigaethol o dan Amod VCR2.1 (b), rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny –

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(b) gan ystyried unrhyw ganllawiau,

a allai gael eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd.

Amod VCR3: Canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B

Cyhoeddi canlyniadau

VCR3.1 Mewn perthynas â phob Cymhwyster Categori B y mae'n sicrhau sydd ar gael, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i roi canlyniad i bob Dysgwr –

(a) naill ai –

(i) a oedd neu y mae wedi'i gofrestru i gymryd asesiad, rhwng 1 Awst 2020 a 31 Awst 2021 (neu unrhyw ddyddiad amgen y gall Cymwysterau Cymru ei nodi), a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, neu

(ii) y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol gan y corff dyfarnu i fod wedi'i gofrestru felly, ac

(b) mae disgwyl i'r cymhwyster hwnnw gael ei ddyfarnu iddo yn y DU.

VCR3.2 Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi'r canlyniad hwnnw –

(a) yn unol ag unrhyw ddyddiad neu amserlen a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymhwyster o dan Amod H6.1(e), neu

(b) lle nad yw'n bosibl cyhoeddi'r canlyniad yn unol â'r dyddiad neu'r amserlen honno –

(i) cyn gynted â phosibl, neu

(ii) yn unol ag unrhyw ddyddiad neu amserlen amgen a gymeradwywyd ymlaen llaw gan Gymwysterau Cymru.

VCR3.3 Mewn perthynas â Chymhwyster Categori B y mae'n sicrhau sydd ar gael –

(a) nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu gyhoeddi canlyniad ar gyfer pob uned ac efallai y bydd yn cyhoeddi canlyniad ar gyfer y cymhwyster yn unig,

(b) ond gallai ddewis cyhoeddi canlyniad ar gyfer pob uned, a rhaid darllen Amod H6.1(a) yn unol â hynny.

Penderfynu ar ganlyniadau

VCR3.4 Ac eithrio pan fo Amod VCR3.6 yn berthnasol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y canlyniad yn cael ei bennu –

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, ac
(b) ar ôl ystyried unrhyw ganllawiau,

a allai gael eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd.

VCR3.5 Pan fydd corff dyfarnu, ar ôl cydymffurfio â'r gofynion o dan Amod VCR3.4, yn penderfynu Addasu Cymhwyster Categori B, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny -

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, ac
(b) ar ôl ystyried unrhyw ganllawiau,

a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan Amod VCR2.2 ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

VCR3.6 Pan mae corff dyfarnu yn gallu cyflwyno a / neu farcio'r asesiadau sydd i'w cymryd fel arfer ar gyfer Cymhwyster Categori B y mae'n sicrhau ei fod ar gael, gallai –

(a) gyflwyno a marcio'r asesiadau hynny, neu
(b) ddewis cydymffurfio ag Amodau VCR3.4 a VCR3.5 lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Amod VCR4: Egwyddorion i'w cymhwyso

VCR4.1 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth gydymffurfio ag Amodau VCR2 a VCR3, ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i –

(a) gydymffurfio â'r egwyddorion a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru ac a ddiwygir o bryd i'w gilydd, ac

(b) mewn perthynas â Chymhwyster Categori B, dim ond pan fo gwrthdaro rhwng dwy neu fwy o'r egwyddorion hynny, sicrhau cydbwysedd rhwng yr egwyddorion hynny yn unol ag unrhyw ofynion a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru ac a ddiwygir o bryd i'w gilydd.

Amod VCR5: Cadw cofnod o wneud penderfyniadau

VCR5.1 Mewn perthynas â Chymhwyster Galwedigaethol y mae'n sicrhau sydd ar gael, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) mewn perthynas â Chymhwyster Categori A, gadw cofnod, fel sy'n berthnasol, o'r –

(i) adolygiad a gynhaliwyd o dan Amod VCR2.1(a) a'i benderfyniad ynghylch a yw'n briodol Addasu'r cymhwyster o dan Amod VCR2.1(b),

(ii) penderfyniadau y mae wedi'u gwneud wrth Addasu'r cymhwyster yn unol â'r gofynion, a chan ystyried y canllawiau, a gyhoeddwyd o dan Amod VCR2.2,

(iii) sut mae wedi cydymffurfio ag Amod VCR4.1,

(iv) y rhesymeg dros y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iii) yr Amod hon, ac

(v) unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, ac

(b) mewn perthynas â Chymhwyster Categori B, cadw cofnod, fel sy'n berthnasol, o'r –

(i) rhesymau pam na all roi canlyniad yn unol ag Amod VCR3,

(ii) dull y mae wedi'i ddefnyddio i bennu canlyniad yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod VCR3.4(a),

(iii) unrhyw benderfyniadau y mae wedi'u gwneud wrth Addasu'r cymhwyster yn unol â'r gofynion, a chan ystyried y canllawiau, a gyhoeddwyd o dan Amod VCR2.2,

(iv) sut y mae wedi cydymffurfio ag Amod VCR4.1, gan gynnwys, yn benodol, sut y mae wedi ceisio cydbwyso cydymffurfiad â'r egwyddorion yn unol ag Amod VCR4.1(b),

(v) y rhesymeg dros y penderfyniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iv) yr Amod hon, ac

(vi) unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(c) chadw'r cofnod hwnnw ar ffurf a bennir mewn unrhyw ofynion a allai gael eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u diwygio o bryd i'w gilydd, a

(d) darparu'r cofnod hwnnw i Gymwysterau Cymru ar gais.

Amod VCR6: Cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

Cefnogaeth i Ganolfannau

VCR6.1 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) roi arweiniad effeithiol i Ganolfan –

(i) y gallai'r Ganolfan ofyn yn rhesymol amdano mewn perthynas ag asesiad wedi'i Addasu a ddarperir gan y corff dyfarnu o dan Amod VCR2.1(b) neu Amod VCR3.5, ac

(ii) am ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r corff dyfarnu yn gofyn amdani gan y Ganolfan er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VCR3.4(a), a

(b) darparu trefniadau clir ac effeithiol lle gall y Ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu os yw'n cael anawsterau wrth ddarparu'r wybodaeth honno.

Gwybodaeth i'w darparu i Ganolfannau

VCR6.2 Mewn perthynas â Chymhwyster Galwedigaethol y mae'n sicrhau sydd ar gael, rhaid i'r dulliau a fabwysiadwyd gan gorff dyfarnu i ddod i ganlyniad ar gyfer Dysgwr o dan Amodau VCR2 a VCR3, fel sy'n berthnasol, fod yn ddigon tryloyw i –

(a) gadw hyder y cyhoedd yn y cymhwyster,
(b) diwallu anghenion rhesymol Defnyddwyr y cymhwyster,
(c) caniatáu i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid apelio o dan Amod I1.

VCR6.3 Rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â threfniadau sydd –

(a) yn gofyn am i'r wybodaeth a nodir yn Amod VCR6.4 gael ei darparu ar gais i –

(i) Ganolfan Berthnasol (ar ran Dysgwr), ac

(ii) Ymgeisydd Preifat, ac

(b) mae'n bosibl y bydd angen i'r wybodaeth honno gael ei darparu ar gais i Ddysgwr nad yw'n Ymgeisydd Preifat.

VCR6.4 Y wybodaeth sydd i'w darparu o dan y trefniadau hynny yw –

(a) yr Addasiadau y mae corff dyfarnu wedi'u gwneud i Gymhwyster Galwedigaethol yn unol â'r gofynion a gyhoeddwyd o dan Amod VCR2.2, a'r
(b) wybodaeth a ddefnyddir i bennu'r canlyniad a roddir i Ddysgwr yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VCR3.4(a).

VCR6.5 Rhaid i'r trefniadau –

(a) roi digon o wybodaeth, a
(b) chaniatáu amser rhesymol

i Ddysgwyr a Chanolfannau ystyried a ddylid gofyn am apêl o dan Amod I1.

VCR6.6 Gallai'r trefniadau –

(a) ddarparu y bydd y corff dyfarnu yn darparu'r wybodaeth berthnasol dim ond ar ôl talu ffi,
(b) nodi gofynion rhesymol eraill ar gyfer gwneud cais am wybodaeth, a
(c) nodi cyfnod amser y mae'n rhaid gofyn am y wybodaeth ynddo.

Amod VCR7: Apeliadau

VCR7.1 Nid yw Amod I1.2(d) yn berthnasol i unrhyw apêl mewn perthynas â chanlyniad am Gymhwyster Categori B lle mae corff dyfarnu yn dilyn y dull o apelio a nodir yn y fframwaith dyfarnu amgen perthnasol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol[1].

VCR7.2 Pan fydd corff dyfarnu yn darganfod trwy broses apelio bod unrhyw ganlyniad y mae wedi'i gyhoeddi yn anghywir rhaid iddo –

(a) ystyried a yw'n briodol cywiro'r canlyniad hwnnw, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymwysterau Cymru o dan Amod H6.3(b)(i), a

(b) chywiro'r canlyniad hwnnw lle mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

[1]Naill ai Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol (GQAA) Ofqual neu Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymru (GQAAFW) Cymwysterau Cymru.

Amod VCR8: Cyfle Asesu Ychwanegol

VCR8.1 Mewn perthynas â'r asesiadau sydd i'w sefyll ar gyfer Cymhwyster Categori B y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau –

(a) os yw fel arfer yn rhoi cyfle rhwng 1 Medi a 31 Ionawr mewn blwyddyn academaidd i Ddysgwyr sefyll yr asesiadau hynny, ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i roi'r cyfle hwnnw yn 2021 i bob Dysgwr –

(i) y byddai fel arfer yn darparu'r cyfle hwnnw iddo,

(ii) y rhoddwyd canlyniad iddo o dan Amodau VCR, ac

(iii) sydd neu a oedd wedi cofrestru i sefyll asesiad, rhwng 1 Awst 2020 a 31 Awst 2021, a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, ond ni chyhoeddwyd canlyniad iddo, ac

(b) os nad yw fel arfer yn rhoi cyfle rhwng mis Medi a mis Ionawr mewn blwyddyn academaidd i Ddysgwyr gwblhau'r asesiadau hynny, mae'n rhoi cyfle o'r fath yn 2021 i'r Dysgwyr hynny a nodir yn Amod VCR8.1(a) lle mae'n ystyried yn rhesymol bod digon o alw am y cyfle hwnnw.

VCR8.2 Nid yw'r gofyniad yn Amod VCR8.1 (b) yn berthnasol pan fo corff dyfarnu o'r farn resymol y byddai darparu'r cyfle hwnnw –

(a) yn anymarferol, neu
(b) yn creu baich anghymesur ar y corff dyfarnu neu'r Canolfannau.

VCR8.3 Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod ei ddull o ymdrin ag asesiad a ddarperir o dan Amod VCR8.1 –

(a) yn lleihau beichiau cyn belled ag y bo modd, ac
(b) ei fod mor ymarferol â phosibl, gan gynnwys gan Ganolfannau ac Athrawon.

VCR8.4 Rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir iddo gan Cymwysterau Cymru mewn perthynas â darparu cyfleoedd asesu ar gyfer VQs.

VCR8.5 Mewn perthynas â phob asesiad mae'n ei ddarparu o dan Amodau VCR8.1 a VCR8.3 –

(a) rhaid i gorff dyfarnu drin y cymhwyster y mae'r asesiad hwnnw'n ymwneud ag ef fel Cymhwyster Categori A at ddibenion cydymffurfio ag Amodau VCR2 a VCR4 i VCR6, ac

(b) nid yw Amodau VCR3 a VCR7 yn berthnasol.

Amod VCR9: Hysbysiadau Cyngor Technegol

VCR9.1 Rhaid i gorff dyfarnu –

(a) roi sylw i unrhyw Hysbysiad Cyngor Technegol a anfonir gan Gymwysterau Cymru at y corff dyfarnu, a

(b) hysbysu Cymwysterau Cymru sut y mae wedi cydymffurfio ag Amod VCR9.1 o fewn yr amserlen a nodwyd yn yr Hysbysiad Cyngor Technegol hwnnw.

Gofynion mewn perthynas ag Addasu Cymwysterau Galwedigaethol

Mae Amod VCR2.2(a) yn caniatáu inni nodi gofynion ac arweiniad mewn perthynas ag Addasu Cymwysterau Galwedigaethol.

Rydym yn nodi ein gofynion mewn perthynas ag Addasu Cymwysterau Galwedigaethol isod. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i Gymwysterau Categori A o dan Amod VCR2.2(a) ac i Gymwysterau Categori B o dan Amod VCR3.5(a).

Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau

Mae yna nifer o ffyrdd y gallai corff dyfarnu wneud newidiadau i Gymwysterau Galwedigaethol y mae'n sicrhau sydd ar gael er mwyn –

(a) mewn perthynas â Chymwysterau Categori A, lliniaru unrhyw aflonyddwch a achosir gan y pandemig coronafeirws (COVID-19) i addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer Dysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster, ac

(b) mewn perthynas â Chymwysterau Categori B, sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o Ddysgwyr yn derbyn canlyniadau.

Mae'r rhain yn cynnwys –

(a) sicrhau bod mwy o amser addysgu a dysgu ar gael, er enghraifft trwy ystyried amodau amgen ar gyfer cynnal asesiadau fel nad oes angen i bob un ohonynt gael eu goruchwylio'n uniongyrchol, neu drwy symleiddio asesiadau,

(b) newid y ffordd y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft trwy ddefnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phapur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb,

(c) addasu dulliau asesu i ystyried pellter cymdeithasol a chanllawiau iechyd cyhoeddus, er enghraifft trwy ddefnyddio efelychiad ymarferol yn lle arsylwad, neu drafodaeth broffesiynol yn lle arddangosiad ymarferol,

(d) newid gofynion Goruchwylio, er enghraifft trwy ganiatáu defnyddio Goruchwylio ar-lein fel y gellir cynnal asesiadau mewn ystod ehangach o leoliadau,

(e) ildio neu addasu gofynion profiad gwaith neu leoliad, er enghraifft caniatáu i Ddysgwyr ymgymryd â chyfnod byrrach o brofiad gwaith, neu

(f) newid y ffordd y mae cymhwyster yn mynd trwy broses sicrhau ansawdd, er enghraifft trwy ganiatáu i safoni neu Graffu ar Safonau Asesu Canolfannau ddigwydd o bell neu ar-lein.

Ymhob achos, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw Addasiadau y mae'n eu gwneud i Gymhwyster Galwedigaethol yn unol â'r egwyddorion a nodir o dan Amod VCR4.1.

Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i leihau risgiau i Ddilysrwydd trwy sicrhau bod sylw i feysydd allweddol y cymhwyster yn parhau mewn unrhyw asesiad wedi'i Addasu.

Pan fo cymhwyster yn cynnwys Cydrannau y mae'n ofynnol iddynt ddangos cymhwysedd galwedigaethol ar gyfer cyflogaeth neu brentisiaethau, ac na ellir Addasu'r Cydrannau hynny'n ddilys ac felly mae'n rhaid eu gohirio, ni ellir dyfarnu'r cymhwyster i gyd nes bod y Cydrannau hynny wedi'u cwblhau.

Rhaid i gorff dyfarnu weithredu o fewn terfynau ei gapasiti a'i allu yn unig.

Ystyriaethau cydraddoldeb

Ymhob achos, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â gofynion Amod D2 (Hygyrchedd cymwysterau) ac Amod G6 (Trefniadau ar gyfer addasiadau rhesymol).

Yn yr un modd, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau, wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiad ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol y mae'n sicrhau sydd ar gael, ei fod yn Lleihau Rhagfarn, cyn belled ag y bo modd.

Cymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol a thrwyddedau i ymarfer

Pan fo Cymhwyster Galwedigaethol, neu Gydran o Gymhwyster Galwedigaethol, y mae'n sicrhau sydd ar gael yn gweithredu fel trwydded i ymarfer, neu'n cael ei ddefnyddio i roi mynediad i broffesiwn penodol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn taro cydbwysedd priodol rhwng –

(a) cynnal Dilysrwydd y cymhwyster er mwyn cyflawni ei amcan, a

(b) gwneud Addasiadau i asesiadau er mwyn darparu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn Amod VCR2.1.

Mewn perthynas â chymwysterau o'r fath, dylai corff dyfarnu dueddu at ochr cynnal Dilysrwydd y cymhwyster, hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu nad yw'n bosibl darparu asesiadau.

Rydym yn cydnabod, yn dibynnu ar amcan y cymhwyster a'r defnyddiau y gellir eu gwneud ohono, y gallai fod gan gyrff rheoleiddio a goruchwylio proffesiynol a'r sector farn o bosibl ar Addasiadau a ganiateir neu ddulliau eraill i'w cymryd. Gallant

hefyd chwarae rôl wrth sicrhau dulliau cyson ar draws cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg, neu sydd ag amcan tebyg.

Wrth ystyried unrhyw Addasiadau i Gymhwyster Galwedigaethol y mae'n sicrhau sydd ar gael, rhaid i gorff dyfarnu ystyried unrhyw ofynion neu ganllawiau penodol a gyhoeddir gan unrhyw gorff proffesiynol neu gorff sector perthnasol.

Rhaid i gorff dyfarnu beidio â cheisio dilyn y gofynion a'r arweiniad a gyhoeddir gan gorff o'r fath lle byddai gwneud hynny'n torri'r egwyddorion a nodir o dan Amod VCR4.1.

Gofynion mewn perthynas â phenderfynu canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B

Mae Amod VCR3.4(a) yn caniatáu inni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas â phenderfynu ar ganlyniadau i'w cyhoeddi ar gyfer Cymwysterau Categori B.

Rydym yn nodi'r gofynion hynny isod.

Ymagwedd gyffredinol at ddyfarnu

Wrth ystyried ei ddull cyffredinol o ddyfarnu ar gyfer Cymhwyster Categori B y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) ystyried nodweddion y cymhwyster, gan gynnwys pwrpas, defnydd, maint, strwythur a dull cyflwyno,

(b) ystyried y rhesymeg dros ddyfarnu pan nad yw pob asesiad wedi cael ei gwblhau, megis tarfu ar addysgu a dysgu, a chydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch y cyhoedd, ac

(c) yng ngoleuni'r uchod, lle bo hynny'n berthnasol, penderfynu i ba raddau y mae'n bosibl ac yn briodol cysoni'r dull o ddyfarnu a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau o dan y fframwaith dyfarnu amgen perthnasol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol2.

Penderfynu ar y canlyniadau

Wrth ystyried ei ddull cyffredinol o bennu canlyniadau ar gyfer Cymhwyster Categori B y mae'n sicrhau sydd ar gael, rhaid i gorff dyfarnu fynd trwy'r camau a nodir isod.

Nodi ffynonellau gwybodaeth

Ar gyfer pob Cymhwyster Categori B y mae'n ei ddarparu, ac ar gyfer pob Dysgwr sy'n ei gymryd, rhaid i gorff dyfarnu –

(a) nodi'r ffynonellau gwybodaeth perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd ac a allai fod ar gael mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a /neu ar gyfer pob asesiad (er enghraifft, Graddau a Asesir gan Athro ar Lefel Cymhwyster[3],

[2]Naill ai Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol (GQAA) Ofqual neu Fframwaith Dyfarnu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymru (GQAAFW) Cymwysterau Cymru.

[3]Yn y gofynion hyn, mae 'Gradd a Asesir gan Athro ar Lefel Cymhwyster' yn golygu gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfan mewn perthynas â pherfformiad Dysgwr ar lefel cymhwyster.

Graddau a Asesir gan Athro ar Lefel Cydran[4] ('Graddau a Asesir gan Athro' gyda'i gilydd[5]), neu ganlyniadau Cydrannau wedi'u bancio), ac

(b) ystyried y defnydd y gellir defnyddio'r wybodaeth honno ar ei gyfer mewn perthynas â phenderfynu canlyniadau mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a / neu ar gyfer pob asesiad.

Disgrifir rhai ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio i bennu canlyniadau unigol, a rhai ffactorau sy'n berthnasol i benderfynu ar eu rôl, yn Nhabl 1 fel y'u nodir yn y canllawiau ac a gyhoeddwyd o dan Amod VCR3.4(b).

Datblygu dull

Unwaith y bydd corff dyfarnu wedi nodi ac ystyried y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael iddo, neu y gall eu sicrhau o fewn yr amserlen ofynnol, rhaid iddo ddatblygu dull sy'n cynnwys y ddwy elfen ganlynol –

(a) Y penderfyniad cyntaf ynghylch canlyniad pob Dysgwr.

(b) Gwiriad sicrhau ansawdd ar y penderfyniad dechreuol hwnnw.

Y trothwy tystiolaeth leiaf sy'n ofynnol gan gorff dyfarnu i bennu canlyniad

Ar ôl nodi'r ffynonellau gwybodaeth perthnasol, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ei ddull yn arwain at ganlyniadau sy'n ddigon Dilys a Dibynadwy. Mae hyn yn golygu bod –

(a) tystiolaeth briodol ar gael i Ganolfannau i seilio Gradd a Asesir gan Athro arni, a / neu

(b) ddigon o ddata Cydrannau wedi'i fancio.

Oni bai bod digon o ffynonellau gwybodaeth, dylai corff dyfarnu ddod i'r casgliad nad yw'n gallu cyhoeddi canlyniad sydd â Dilysrwydd a Dibynadwyedd digonol i fodloni Egwyddorion B1 a B2 fel y nodir o dan Amod VCR4.1. Mewn achosion o'r fath, o dan Amod VCR5.1(b)(i), rhaid i gorff dyfarnu gadw cofnod o pam ei fod o'r farn nad yw'r trothwy tystiolaeth isaf yn cael ei fodloni mewn perthynas â'r Dysgwyr perthnasol.

---

[4]Yn y gofynion hyn, mae 'Gradd a Asesir gan Athro ar Lefel Cydran' yn golygu gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfan mewn perthynas â pherfformiad Dysgwr ar lefel Cydran unigol.

[5]Yn y gofynion hyn, mae 'Graddau a Asesir gan Athro' yr un fath â 'Graddau a Bennir gan Ganolfan' a ddisgrifir yn y GQAAFW.

Mewn perthynas â Graddau a Asesir gan Athro, dylai corff dyfarnu nodi disgwyliadau clir mewn perthynas â sut y dylid pennu'r graddau hynny fel y nodir nhw yn yr adran nesaf.

Canllawiau i Ganolfannau ynghylch Graddau a Asesir gan Athro

Lle bydd Graddau a Asesir gan Athro yn sail i ganlyniad, rhaid i gorff dyfarnu -

(a) ofyn i Ganolfan ddarparu canlyniad mewn perthynas â phob Cymhwyster neu asesiad Categori B ar gyfer y cymhwyster hwnnw ar gyfer pob Dysgwr yn y Ganolfan, neu Ymgeisydd Preifat sy'n gweithio gyda'r Ganolfan, y mae'n ofynnol i'r corff dyfarnu gyhoeddi canlyniad iddynt o dan Amod VCR3.1,

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Canolfannau yn barnu'r Radd a Asesir gan Athro yn erbyn y safon a osodwyd ar gyfer y cymhwyster mewn blynyddoedd blaenorol y cynhaliwyd asesiadau ynddynt, a

(c) chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Radd a Asesir gan Athro yn seiliedig ar farn y Ganolfan ynghylch gwir lefel cyrhaeddiad y Dysgwr unigol yn seiliedig ar dystiolaeth briodol.

Gallai'r dystiolaeth a ystyrir gan Ganolfan gynnwys y canlynol –

(a) Perfformiad ar unrhyw asesiad ar gyfer y cymhwyster hyd yn oed os nad yw hwn wedi'i gwblhau'n llawn. Lle bo hynny'n berthnasol, dylai corff dyfarnu annog Canolfannau i gefnogi Dysgwyr i gwblhau asesiad mewnol[6] cyn belled ag y bo modd, ac i Ganolfannau farcio'r asesiadau hynny.

(b) Perfformiad mewn unrhyw asesiadau dosbarth neu waith cartref a ffug arholiadau a gymerir yn ystod yr astudiaeth.

(c) Cofnodion o berfformiad y Dysgwr yn ystod yr astudio yn y cymhwyster perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, data adolygu cynnydd, gwaith dosbarth, a / neu gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, arddangosiadau a pherfformiadau.

(d) Unrhyw dystiolaeth berthnasol arall.

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi Gradd a Asesir gan Athro yn cael ei chadw gan y Ganolfan tan 6

[6]Yn y gofynion hyn, 'asesiad mewnol' yw asesiad sy'n cael ei farcio gan Ganolfan ac yna sy'n ddarostyngedig i gymedroli neu ddilysu gan y corff dyfarnu.

mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r canlyniad, neu ddod ag unrhyw apêl i ben mewn perthynas â'r canlyniad hwnnw, pa un bynnag sydd hwyraf.

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod Canolfan, cyn belled ag y bo modd –

(a) yn gyson yn y dyfarniadau y mae'n eu defnyddio i gyrraedd ei Raddau a Asesir gan Athro ar gyfer Dysgwyr sy'n cymryd yr un cymhwyster (ee trwy ddarparu deunyddiau enghreifftiol, neu ddeunyddiau cymorth eraill),

(b) yn gyson yn y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio i gyrraedd ei Raddau a Asesir gan Athro ar gyfer Dysgwyr sy'n cymryd yr un cymhwyster (ee trwy ddarparu arweiniad gan y corff dyfarnu ar werthuso tystiolaeth),

(c) yn fodlon y gellir dilysu'r dystiolaeth y mae'n ei defnyddio fel tystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Dysgwr perthnasol, a lle bo hynny'n briodol, o dan unrhyw amodau gofynnol a bennir gan y corff dyfarnu,

(d) mewn perthynas ag unrhyw Ddysgwr y rhoddwyd Ystyriaeth Arbennig iddo, yn rhoi ystyriaeth i'r Ystyriaeth Arbennig honno,

(e) mewn perthynas ag unrhyw Ddysgwr sydd ag Addasiad Rhesymol y cytunwyd arno, yn ystyried yr effaith y caiff unrhyw ddiffyg yn yr addasiad hwnnw wrth gynhyrchu unrhyw dystiolaeth a ddefnyddir i hysbysu'r Radd a Asesir gan Athro ar gyfer y Dysgwr hwnnw, ac

(f) yn seiliedig ar ganllawiau clir a ddarparwyd gan y Corff Dyfarnu o dan Amod VCR6.1(a)(ii), yn fodlon bod y dystiolaeth yn ddigonol i gefnogi gradd.

Sicrhau ansawdd mewnol Graddau sy'n cael eu Hasesu gan Athro

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan Ganolfan drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau ansawdd ei Graddau a Asesir gan Athro a'i bod yn cydymffurfio â nhw, cyn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y trefniadau sydd gan Ganolfan ar waith mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol yn cynnwys –

(a) dull clir o lunio barn mewn perthynas â phob Gradd a Asesir gan Athro, gan gynnwys sut y bydd tystiolaeth yn cael ei defnyddio, a

(b) chroeswiriad lefel uchel o'r Graddau a Asesir gan Athro yn erbyn canlyniadau ar gyfer carfannau blaenorol yn y Ganolfan a gymerodd asesiadau ar gyfer yr un cymhwyster mewn blynyddoedd blaenorol i roi arwydd nad yw Graddau a

Asesir gan Athro yn gyffredinol yn rhy hael nac yn rhy llym o'u cymharu â'r canlyniadau hynny o flynyddoedd blaenorol.

Yn benodol, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Radd a Asesir gan Athro wedi'i hadolygu gan -

(a) Athrawon pwnc neu Aseswyr, a'r

(b) pennaeth adran perthnasol neu gyfwerth neu, lle nad oes unigolyn mewn rôl o'r fath, pennaeth y Ganolfan neu gyfwerth.

Er y gall data o flynyddoedd blaenorol o bosibl ddarparu croeswiriad lefel uchel defnyddiol ar batrymau graddio cyffredinol i sicrhau bod gwrthrychedd yn cael ei gynnal, dylai Gradd a Asesir gan Athro pob Dysgwr gael ei phennu gan berfformiad penodol y myfyriwr hwnnw mewn perthynas â'r cymhwyster perthnasol.

Fel rhan o'r canllawiau a ddarperir o dan Amod VCR6.1(a)(ii), rhaid i gorff dyfarnu roi arweiniad i Ganolfannau ar sicrhau ansawdd mewnol.

Sicrhau ansawdd allanol gan gyrff dyfarnu Graddau a Asesir gan Athro

Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod ganddo drefniadau effeithiol ar waith sy'n caniatáu iddo sicrhau ansawdd Graddau a Asesir gan Athro ac y cydymffurfir â hwy.

Rhaid i gorff dyfarnu dynnu ar ystod o wybodaeth i lywio'r dull y mae'n ei gymryd i sicrhau ansawdd Graddau a Asesir gan Athro. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol ac ar gael:

(a) data canlyniadau hanesyddol Canolfannau,

(b) proffiliau risg Canolfannau, a

(c) hygrededd y canlyniadau yn seiliedig ar ddata Cydrannau wedi'i fancio.

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y dull y mae Canolfan wedi'i ddefnyddio i bennu Gradd a Asesir gan Athro yn seiliedig ar dystiolaeth briodol a'i fod yn unol â'r canllawiau y mae wedi'u darparu i'w Ganolfannau.

Pan fo corff dyfarnu yn ystyried ei fod yn angenrheidiol at ddibenion cynnal ei drefn sicrhau ansawdd, rhaid i gorff dyfarnu:

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r Ganolfan ddarparu gwybodaeth i gefnogi ei phroffil canlyniadau, ee o'i chymharu â pherfformiad yn y gorffennol,

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r Ganolfan ddarparu manylion ei dull o sicrhau ansawdd mewnol, a

(c) samplu'r dystiolaeth y mae Graddau a Asesir gan Athro yn seiliedig arni.

Rhaid i gorff dyfarnu beidio â chyhoeddi canlyniad lle nad yw unrhyw broblemau a nodwyd fel rhan o'i gam sicrhau ansawdd wedi'u datrys er boddhad y corff dyfarnu.

Rhoi arweiniad i Ganolfannau ar sut y bydd canlyniadau'n cael eu penderfynu

O dan Amod VCR6.1(a)(ii), rhaid i gorff dyfarnu roi arweiniad effeithiol i Ganolfan ynghylch rhoi unrhyw wybodaeth y mae'r corff dyfarnu yn gofyn amdani er mwyn penderfynu ar ganlyniadau.

Ar gyfer pob Cymhwyster Categori B y mae'n ei ddarparu, rhaid i gorff dyfarnu roi arweiniad ar gyfer Canolfannau sy'n egluro –

(a) y ffynonellau gwybodaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r trothwy tystiolaeth isaf ar gyfer penderfynu ar ganlyniadau,

(b) sut y bydd y wybodaeth honno'n cael ei defnyddio i bennu canlyniadau ar gyfer Dysgwyr sy'n cael tystysgrif a rhai sydd ddim yn cael tystysgrif,

(c) rôl y Ganolfan mewn perthynas â'r dystiolaeth y bydd ei hangen i bennu'r Radd a Asesir gan Athro ddechreuol, lle bo hynny'n berthnasol,

(d) y trefniadau sicrhau ansawdd mewnol a ddisgwylir gan Ganolfannau,

(e) pa wybodaeth y mae'n rhaid i'r Ganolfan ei darparu i'r corff dyfarnu, ac erbyn pryd, i gefnogi cyflwyno canlyniadau erbyn yr amserlen y cytunwyd arni,

(f) sut y bydd y corff dyfarnu yn sicrhau ansawdd y Radd a Asesir gan Athro ddechreuol, lle bo hynny'n berthnasol, a'r

(g) sail a'r broses ar gyfer apelio.

Ystyried gwahaniaethau yn y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer Dysgwyr sy'n cymryd yr un cymhwyster

Ar gyfer rhai Cymwysterau Categori B, hyd yn oed pan fo tystiolaeth yn cwrdd â'r trothwy, efallai na fydd ystod y dystiolaeth yn unffurf ar gyfer pob Dysgwr, yn enwedig lle mae amrywioldeb o ran -

(a) effaith y pandemig coronafeirws (COVID-19) ar addysgu, dysgu ac asesu,

(b) sut mae cwrs addysgu ar gyfer cymhwyster yn cael ei ddarparu gan Ganolfannau,

(c) y pwynt y cofnodir Dysgwyr ar gyfer asesiadau yn ystod y cwrs astudio,

(d) yr effaith ar Ddysgwyr o gymryd asesiadau yn ystod mis Ionawr, neu

(e) sut mae sicrhau ansawdd arferol yn cael ei wneud gan y corff dyfarnu.

Er enghraifft, efallai bod rhai Dysgwyr wedi cymryd cyfran lawer uwch o'r asesiadau gofynnol ar gyfer cymhwyster na Dysgwyr eraill, hyd yn oed o fewn yr un Ganolfan neu ddosbarth.

Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen i gorff dyfarnu –

(a) ddefnyddio gwahanol ffynonellau, neu gyfuniadau o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer gwahanol Ddysgwyr, a chaniatáu i Ganolfannau wneud yr un peth, a

(b) rhaid iddo sicrhau, fel rhan o'i broses sicrhau ansawdd, nad yw'r gwahanol ddulliau ar gyfer pennu canlyniadau a ddefnyddir ar gyfer gwahanol Ddysgwyr yn manteisio nac yn anfanteisio'r Dysgwyr hynny yn systematig.

Dulliau cymysg a chyfochrog o ddyfarnu

Ar gyfer yr un cymhwyster, gall corff dyfarnu ddarparu canlyniadau a bennir ar sail asesiadau wedi'u Haddasu ar gyfer rhai Cydrannau ac ar sail dulliau eraill ar gyfer Cydrannau eraill (ee Graddau a Asesir gan Athro).

Gall corff dyfarnu gymryd gwahanol ddulliau hefyd mewn perthynas â gwahanol Ddysgwyr sy'n cymryd yr un Cydrannau lle, er enghraifft, mae digon o dystiolaeth i gyhoeddi canlyniad i un Dysgwr ond nid un arall.

Dysgwyr a gymerodd neu a oedd yn disgwyl cymryd asesiad ym mis Ionawr 2021

Ar gyfer Dysgwyr a gymerodd neu a oedd yn disgwyl cymryd asesiadau ar gyfer Cymhwyster Categori B ym mis Ionawr 2021, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau –

- bod dysgwyr nad ydynt yn cael tystysgrifau a oedd yn absennol o asesiadau mis Ionawr yn gymwys i gael canlyniad trwy ddefnyddio dulliau eraill (ee Graddau a Asesir gan Athro), a bod
- Dysgwyr nad ydynt yn cael tystysgrifau a gymerodd yr asesiadau, ond a ganfu bod gorfod cymryd yr asesiadau hynny yng nghyd-destun yr aflonyddwch ym mis Ionawr wedi cael effaith andwyol ar eu gallu i ddangos lefel eu cyrhaeddiad, yn gymwys hefyd i gael canlyniad trwy ddefnyddio dulliau eraill (ee Graddau a Asesir gan Athro).

Egwyddorion i'w cymhwyso

Mae Amod VCR4.1 yn caniatáu inni nodi egwyddorion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â hwy wrth Addasu asesiadau o dan Amod VCR2 a phenderfynu ar ganlyniadau o dan Amod VCR3, yn ogystal â'r cydbwysedd sydd i'w gyflawni pan fydd yr egwyddorion hynny'n gwrthdaro.

Rydym wedi nodi dwy set o egwyddorion ar wahân, un i'w defnyddio mewn perthynas â Chymwysterau Categori A a'r llall i'w defnyddio mewn perthynas â Chymwysterau Categori B. Rydym wedi nodi hierarchaeth ar gyfer yr egwyddorion i'w cymhwyso mewn perthynas â'r olaf, ond nid y cyntaf.

Rydym yn nodi'r ddwy set hon o egwyddorion isod.

Yr egwyddorion mewn perthynas â Chymwysterau Categori A

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r egwyddorion isod wrth gydymffurfio ag Amod VCR2 mewn perthynas â Chymhwyster Categori A.

Egwyddor A1 – Cyn belled ag y bo modd a heb ragfarnu'r egwyddorion eraill, rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod yr Addasiadau y mae'n eu gwneud i gymhwyster yn cynorthwyo i liniaru'r effaith ar addysgu, dysgu neu asesiadau a achosir gan y pandemig coronafeirws (COVID-19) ar Ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw.

Egwyddor A2 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, pan fydd yn gwneud unrhyw Addasiadau i'w gymwysterau yn unol ag Amodau VCR, bod Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymwysterau hynny yn cael eu cynnal.

Egwyddor A3 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol, ac ar draws cymwysterau tebyg a gynigir gan y corff dyfarnu a chan gyrff dyfarnu eraill.

Egwyddor A4 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r Addasiadau y mae'n eu gwneud i gymhwyster yn rhoi mantais nac anfantais i ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd Cymwysterau Galwedigaethol tebyg neu, lle bo hynny'n berthnasol, gymwysterau cyffredinol nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr Amodau VCR.

Yr egwyddorion mewn perthynas â Chymwysterau Categori B

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r egwyddorion isod wrth gydymffurfio ag Amod VCR3. Pan fydd corff dyfarnu yn Addasu Cymhwyster Categori B, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r egwyddorion hyn yn hytrach na'r rhai sy'n berthnasol i Gymwysterau Categori A.

Egwyddor B1 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cyhoeddi canlyniadau yn unol ag Amod VCR3.1 -

(a) sy'n cwrdd â gofynion Amodau'r VCR, ac

(b) yn benodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth (p'un ai o asesiad neu fel arall) sy'n sicrhau eu bod yn ddigon Dilys a Dibynadwy,

i gynifer o Ddysgwyr â phosibl sy'n cymryd Cymhwyster Categori B y mae'n ei gynnig.

Egwyddor B2 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod pob canlyniad y mae'n ei gyhoeddi mor Ddibynadwy â phosibl ac yn adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd,

(a) lle mae'r holl asesiadau ar gyfer y cymhwyster yn digwydd fel arfer neu ar ffurf wedi'i Addasu, lefel cyrhaeddiad y Dysgwr fel y dangosir yn yr asesiadau hynny, a

(b) lle nad yw pob asesiad yn digwydd, lefel cyrhaeddiad y Dysgwr fel y dangosir gan unrhyw dystiolaeth berthnasol a ystyrir yn unol â'r gofynion a gyhoeddir o dan Amod VCR3.4, ynghyd ag unrhyw asesiad y mae'r Dysgwr wedi'i gymryd ar gyfer y cymhwyster.

Egwyddor B3 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i ddyfarnu Cymhwyster Categori B yn rhoi mantais nac anfantais i wahanol Ddysgwyr neu grwpiau o Ddysgwyr sy'n cymryd yr un cymhwyster.

Egwyddor B4 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw'r trefniadau y mae'n eu gwneud i ddyfarnu Cymhwyster Categori B yn rhoi mantais nac anfantais i ddysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw yn erbyn eu

cyfoedion sy'n cymryd Cymwysterau Galwedigaethol tebyg neu gymwysterau cyffredinol nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y Fframwaith VCR.

Egwyddor B5 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau bod ei ddull o ddyfarnu Cymhwyster Categori B -

(a) yn lleihau beichiau cyn belled ag y bo modd, ac

(b) mor ymarferol â phosibl, gan gynnwys gan Ganolfannau ac Athrawon, gyda goruchwyliaeth briodol gan Gymwysterau Cymru.

Egwyddor B6 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Egwyddor B7 – Rhaid i gorff dyfarnu geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg a gynigir gan y corff dyfarnu a chan gyrff dyfarnu eraill.

Trefnir yr egwyddorion ar gyfer Cymwysterau Categori B mewn hierarchaeth gydag Egwyddor B1 ar y brig ac Egwyddor B7 ar y gwaelod.

Pan fo gwrthdaro rhwng dwy egwyddor neu fwy fel y bydd cydymffurfio ag un egwyddor yn lleihau'r graddau y gall corff dyfarnu gydymffurfio ag un arall, rhaid i'r corff dyfarnu –

(a) roi blaenoriaeth i'r egwyddorion yn unol â'u hierarchaeth, gyda'r flaenoriaeth uchaf yn cael ei rhoi i gydymffurfio ag egwyddorion ymhellach i fyny'r hierarchaeth, a

(b) heb leihau effaith y gofyniad uchod, sicrhau cydymffurfiad â'r holl egwyddorion i'r graddau mwyaf posibl.